# CABINET CYNGOR GWYNEDD

- **Adroddiad i gyfarfod y Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13/5/2025 |
| **Aelod Cabinet:** | Menna Trenholme |
| **Swyddog cyswllt:** | Sioned Owen |
| **Manylion cyswllt:** | sionedowen@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 678824 |
| **Teitl yr Eitem:** | Ymestyn Cynllun Dechrau'n Deg |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Derbyn cynnig grant i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir drwy

- ymestyn y cynllun llawn i weddill ardal Penygroes yn sgil gostyngiad yn y niferoedd cymwys i'r rhaglen bresennol
- ymestyn yr elfen ofal plant i ardaloedd ychwanegol – Cam 3

1.2. Cymeradwyo'r Pennaeth Plant, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid i gyflwyno achosion busnes a derbyn cynigion grant ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn y Raglen Dechrau'n Deg yn y sir, ac i gyflwyno achosion busnes ar gyfer denu arian cyfalaf i gyflawni'r ymestyniad hwnnw ac i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ehangach yn y sir.

## 3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r cytundeb cydweithredu eu nod i ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth gofal plant gyfrwng Cymraeg.

3.2. Bydd y Llywodraeth yn cyflawni'r nod yma yn y lle cyntaf drwy ymestyn rhaglen Dechrau'n Deg.

**Dechrau'n Deg – cynllun llawn - Cam 1 a gostyngiad genedigaethau**

3.3. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg eisoes ar gael mewn 7 cymuned yng Ngwynedd. Mae'n cefnogi teuluoedd gyda phlant 0-4 oed drwy gynnig gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys; cefnogaeth teulu; cymorth iaith a lleferydd; a 12.5 awr o ofal plant am ddim i blant pan yn 2 oed.

3.4. Y cymunedau sy'n rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd yw:-

- Marchog 1 a 2 – Maesgeirchen, Bangor
- Deiniolen
- Peblig a Cadnant – Caernarfon
- Gerlan, Ogwen 1 ac Ogwen 2 a rhannau o Dregarth
- Talysarn, Llanllyfni, Clynnog Fawr a rhannau o Benygroes
- Diffwys a Maenofferen, a Bowydd a Rhiw -Blaenau Ffestiniog
- De Dolgellau

3.5. Mae ehangu Dechrau'n Deg i ddigwydd yn raddol. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar wedi rhoi cam 1af yr ehangu ar waith ers Medi 2022 mewn rhannau ychwanegol o Dregarth a Bethesda a Blaenau Ffestiniog. Mae 73 plentyn ychwanegol yn elwa o'r cam 1af. Mae'r teuluoedd hyn yn derbyn holl gefnogaeth y Rhaglen Dechrau'n Deg. Ychwanegwyd ambell dŷ a stryd yn ardal Marchog 2 ac Ogwen 1 hefyd i dacluso'r ardaloedd gyda datblygiadau newydd.

3.6. Er i ni weithredu'r uchod yn llwyddiannus ac wedi ychwanegu ardal newydd yn 2023 sef Deiniolen mae'r prosiect dal i wynebu gostyngiad yn y niferoedd plant ar y cynllun oherwydd cwtogiad yn y genedigaethau ar draws yr ardaloedd uchod. Ni ellir mynd yn llai na 10% o'r nifer targed o blant. Mae'r niferoedd yn annerbyniol gan y Llywodraeth ar hyn o bryd gan eu bod yn buddsoddi dros £4400 fesul plentyn.

3.7. Cyn penderfynu ar ardaloedd ymestyn cam 3 (fydd ond yn derbyn gofal plant) bu'n rhaid edrych ar gynyddu'r nifer o blant ar y cynllun Dechrau'n Deg a thargedu'r ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd fel bod y teuluoedd mwyaf bregus yn gallu derbyn mynediad llawn i wasanaethau Dechrau'n Deg dros y pedair elfen.

3.8. Gwnaethpwyd dadansoddiad o'r ardaloedd (LSOA) mwyaf difreintiedig a phenderfynodd y Bwrdd Rheoli Dechrau'n Deg mai argymell ymestyn y gwasanaeth i weddill LSOA Penygroes fyddai orau. Golygai hyn y byddai modd cymhwyso oddeutu 40 o blant ychwanegol yr ardal i dderbyn y cynllun i gyd o 0 oed nes yn 4 oed.

3.9. Rydym wedi adnabod bod capasiti i gyflawni hyn ym Mhenygroes o fewn y grant presennol Dechrau'n Deg, sef cost o £60,000 dros flwyddyn lawn. Hefyd bydd mwy o lefydd gofal plant ar gael o fis Mai ymlaen gyda'r datblygiad cyfalaf mawr sydd ar safle ysgol Bro Lleu.

3.10. Os derbynnir yr argymhelliad bydd modd dechrau gwasanaethu'r teuluoedd o fis Medi 2025.

3.11. Byddwn hefyd yn parhau i redeg ymgyrch i gael mwy o deuluoedd estyn-allan yng nghyffiniau'r cynllun presennol i roi gwasanaeth i deuluoedd bregus ar y cyrion. Bydd hyn yn caniatáu'r rhaglen i wasanaethu'r mwyaf o deuluoedd posib o fewn y buddsoddiad grant.

**Ymestyn Dechrau'n Deg - yr elfen gofal plant yn unig i ardaloedd newydd– Cam 2 a 3**

3.12. Mae ehangu Cam 2 sef yr elfen gofal plant yn unig o'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi bod yn weithredol ers 2023-24 ac yn gwasanaethu plant 2 oed gyda gofal plant am 12.5 yr wythnos yn yr ardaloedd LSOA isod:

- Hendre a Dewi (Bangor)
- Abermaw
- Hirael a Garth 2 (Bangor)
- Porthmadog - Tremadog
- Bala
- Teigl (Blaenau Ffestiniog)
- Seiont 2 (Caernarfon)
- Trawsfynydd

3.13. Dros y cyfnod diwethaf o ymestyn y gofal plant yma rydym wedi gweld yr heriau isod

- **Sector yn fregus iawn** - problemau recriwtio ac mae rhedeg y busnes wedi mynd yn fwy costus e.e. ynni, costau bwyd, costau staffio gan geisio dal i barhau i wneud yn fforddiadwy i deuluoedd.
- **Cynnydd Costau staffio** - newidiadau NI / isafswm cyflog a.y.b.
- **Angen sicrhau** fod y llefydd gofal plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- **Dim digon o lefydd** ar y cychwyn gan fod yr is adeiledd ddim ar gael a dimensiwn gwledig y sir yn heriol i gynnig gwasanaeth
- **Disgwyliadau i gyrraedd safonau uwch o wasanaeth** mewn cyfnod penodol e.e. ymrwymiad y staff i gyrraedd cymwysterau lefel 3, 4 a 5.

- o **Strwythurau atebolrwydd a rheolaethol y sector gofal plant** - ein dibyniaeth yma yng Ngwynedd ar Gylchoedd Meithrin a Phwyllgorau Gwirfoddol.
- o **Cynaladwyedd y Sector Gofal Plant** – angen ystyried y fformiwla ariannu (trafodaeth wedi bod i godi'r lefel buddsoddiad i £18.50 y sesiwn) a chymorth busnes i leoliadau fel bod modd iddynt dendro'n llwyddiannus.

3.14. Bydd heriau amlwg i'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn y cyfnod nesaf a bydd rhaid gweithio gyda'm partneriaid Cwlwm a'r sector i oresgyn rhai o'r heriau yn enwedig wrth orfod ystyried comisiynu mwy o lefydd gofal plant i gyfarch ymestyn yr elfen gofal plant ymhellach gyda Cam 3.

3.15. Cyhoeddodd y Llywodraeth y 3ydd cam o ehangu Dechrau'n Deg gan eto ei gyfyngu i ariannu'r elfen gofal plant yn unig gan dargedu 147 o blant 2 oed ychwanegol yn ystod 2025 - 26 mewn mwy o ardaloedd yng Ngwynedd. Eto fel yn ymestyn Cam 2 bydd plant 2 oed yn cael 12.5 awr o ofal plant Cymraeg neu ddwyieithog am ddim am 39 wythnos o'r flwyddyn.

3.16. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn y cynllun Dechrau'n Deg bydd rhaid targedu'r ardaloedd uchaf o ran tlodi plant i ddechrau.

3.17. Yn sgil gweledigaeth y Llywodraeth i ymestyn y gofal plant 2 oed i bob plentyn yng Nghymru gofynnwyd i ni baratoi cynllun i gwmpasu cynlluniau ehangu gweddill ardaloedd Gwynedd gan ddefnyddio methodoleg targedu'r Llywodraeth sef y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Tlodi Plant) a data Adran Gwaith a Phensiynau a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r data hyn wedi'u trefnu ar sail Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) i adnabod ardaloedd o angen. Cyflwynwyd cynllun ehangu i'r Llywodraeth cyn y Dolig yn nodi cynllun realistig am y tair blynedd nesaf.

3.18. Wrth lunio'r cynllun addaswyd y fethodoleg yn sgil fod data'r Llywodraeth wedi dyddio (2016) gan ychwanegu haen o ddata mwy diweddar sydd ar gael o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Rydym wedi uno'r ddwy ddogfen i dargedu'r ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is uchaf yn y ddwy haen o ddata. Wrth addasu'r fethodoleg a defnyddio data mwy cyfredol bydd gwell siawns i gyrraedd y teuluoedd hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf ar hyn o bryd.

3.19. Wrth edrych ar y ddwy haen o ddata ychwanegwyd dadansoddiad o ddigonolrwydd gofal plant ochr yn ochr. Gwelwyd fod nifer o ardaloedd heb ofal plant digonol i gyfarch y

gofyn. Golygai hyn bod rhai LSOA sy'n uchel o ran amddifadedd wedi gorfod symud i flynyddoedd hwyrach yr ymestyn oherwydd nid oes gofal plant yno ar hyn o bryd e.e. LSOA Llangelynin. Ceir bylchau amlwg yn y ddarpariaeth enwedig yn ardaloedd gwledig Gwynedd. Yn y llefydd hyn bydd rhaid gweithio i ddatblygu darpariaeth newydd i gyfarch y gofyn maes o law.

3.20. Yr argymhelliad felly yw targedu'r 'LSOA' uchaf o ran amddifadedd sydd gyda gofal plant digonol ar hyn o bryd fel bod modd prynu'r ddarpariaeth sydd ei angen yn syth i gyfarch gofynion y teuluoedd.

3.21. Rydym wedi adnabod yr ardaloedd (LSOA) isod lle argymhellir ehangu iddo yn ystod 2025 - 26 sef

| LSOA | Genedigaethau 2023 | Nifer o Darparwyr Gofal Plant |
|---|---|---|
| Tywyn 1 + 2 | 15 | 2 |
| Harlech | 15 | 1 |
| Llandderfel & Llanuwchllyn 1 | 3 | 2 |
| Penrhyndeudraeth 1+ 2 | 27 | 1 |
| Efailnewydd / Buan | 13 | 2 |
| Aberdaron/Botwnnog/ Tudweiliog | 24 | 2 |
| Criccieth | 13 | 1 |
| Waunfawr | 17 | |
| Seiont 1 - gweddill yr LSOA | 9 | Darparwyr Caernarfon |
| **Wrth gefn** | | |
| Llanberis | 18 | 1 |
| Arllechwedd | 7 | 1 |
| Porthmadog Gorllewinol | 8 | Darparwyr Porthmadog |

3.22. Nid yw'r Gwasanaeth gyda mynediad i'r wybodaeth union o ran nifer plant. Gellir targedu fel yn y tabl gan ychwanegu ardaloedd wrth gefn os bydd y nifer plant yn caniatáu. Yna gallwn ymestyn i'r ardaloedd nesaf pan ddaw mwy o ofal plant ar gael yn y blynyddoedd i ddod h.y. 2026 - 28 (os daw mwy o gyllid gan y Llywodraeth.)

3.23. Wrth dderbyn y cynnig grant h.y. y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer Dechrau'n Deg bydd £4,138, 482 ar gael yn flynyddol am dair blynedd nesaf gydag ychwanegiad o £827,917 ar gyfer Cam 3. Golygai hyn cefnogaeth i fyny oddeutu 200 o blant cyn ysgol ychwanegol rhwng 2025-28.

3.24. Bydd yr ehangu graddol hyn yn arwain at greu cynnig gofal plant cyffredin i bob plentyn 2 oed ar draws y Sir yn y diwedd yn unol â gweledigaeth y Llywodraeth.

**Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar**

3.25. Yn ychwanegol i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n fuddsoddiad o £75miliwn ar draws Cymru (2025-28). Nodwyd y dylid cynnwys prosiectau byddai'n cwmpasu'r meini prawf canlynol:

- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Cydleoli – er enghraifft ar safleoedd ysgolion, mewn Hybiau Cymunedol neu Iechyd
- Ehangu'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg neu Ddysgu Sylfaen mewn lleoliad gofal plant
- Ehangu llefydd gofal plant

3.26. Ers 2022 mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar ar y cyd gyda swyddogion Tai ac Eiddo ac Addysg wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau cyfalaf mawr yn Nhywyn, Penygroes, Deiniolen, Bangor a Criccieth (cyfanswm gwariant cyfalaf o oddeutu £3.5miliwn) sy'n fuddsoddiad gwych i blant yr ardaloedd hynny.

3.27. Rydym wedi cyflwyno rhestr o ardaloedd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys y cymunedau canlynol:-

  - Chwilog
  - Bontnewydd
  - Pwllheli

3.28. Wrth edrych ar ein cynlluniau ehangu Dechrau'n Deg, casgliadau'r asesiad digonolrwydd gofal plant, ac argaeledd y Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed ac addysg feithrin bydd rhaid cwblhau dadansoddiad data pellach i adnabod bylchau eraill yn y ddarpariaeth fel ein bod yn adnabod yr ardaloedd hynny ble mae angen buddsoddiad pellach i ychwanegu at y rhestr yn 3.27.

3.29. Byddwn yn ystod 2025-26 yn gallu ymgeisio am grant cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn yr ardaloedd. Nid oes sicrwydd o'r grant, nac o lwyddiant unrhyw achos fusnes unigol ar y pwynt hwn, gan mai dim ond rhestr darluniol yn unig sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i bob achos fusnes unigol brofi'r angen, cwrdd gyda chanllawiau'r rhaglen gyfalaf a dangos y gallu i gyflawni a chwblhau oddi fewn i amserlen y rhaglen.

3.30. Er y bydd y rhaglen gyfalaf yn ein helpu i greu mwy o ofod gofal plant yn y sir, mae heriau fel y nodir yn 3:13 a digonolrwydd a

chynaladwyedd rhai o'r darparwyr yn her wrth i ni geisio ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.

3.31. Bydd manteisio ar y ddwy raglen blynyddoedd cynnar yma yn cyfrannu tuag at feysydd Blaenoriaeth "Gwynedd Yfory" a "Gwynedd Gymraeg" yng Nghynllun y Cyngor drwy roi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant; ac yn cynyddu'r nifer o lefydd addysg gynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Derbyn y cynnig grant i barhau gyda ehangu y rhaglen Dechrau'n Deg i ardal Penygroes

4.2. Symud i gomisiynu darpariaeth gofal plant 2 oed yn yr ardaloedd a dargedir yn ystod 2025-26

4.3. Paratoi a cyflwyno achosion busnes ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2025-26.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"*

5.2. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Gallaf gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd yn yr adroddiad. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir"*